**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dafydd Rhys
Prif Weithredwr
Cyngor Celfyddydau Cymru
Copi at: Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru
Jack Sargeant MS,
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau y Senedd

Dyddiad | Date: 05 Rhagfyr 2022

Pwnc | Subject: Dyfodol Neuadd Dewi Sant

Annwyl Dafydd

Wedi i'n Pwyllgor drafod gohebiaeth gan Creu Cymru yn ein cyfarfod ar 30 Tachwedd 2022, rydym yn ysgrifennu â phryder am ddyfodol Neuadd Dewi Sant, a'r posibilrwydd y gallai gael ei rhedeg gan gwmni allanol yn y dyfodol agos. Mae hyn yn ychwanegol at y ddwy ddeiseb gyhoeddus, y naill ar Change.org a'r llall ar wefan Deisebau'r Senedd, sydd gyda'i gilydd wedi casglu dros 20,000 o lofnodion ar adeg ysgrifennu hyn. Mae ein diddordeb yn y mater hwn yn deillio o'r lle hollbwysig sydd gan Neuadd Dewi Sant erioed fel neuadd gyngerdd operatig a symffonig genedlaethol Cymru. Fel y byddwch yn ei werthfawrogi, mae gennym ni fel Pwyllgor rôl o ran craffu ar faterion diwylliannol sydd o bwys cenedlaethol yng Nghymru. O ystyried bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cefnogi Neuadd Dewi Sant yn y gorffennol, roeddem am godi'r mater gyda chi'n uniongyrchol.

Fel neuadd gyngerdd, mae gan Neuadd Dewi Sant arwyddocâd rhyngwladol, a hynny fel lleoliad cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd. Mae ei llwyfan wedi lansio gyrfaoedd sêr opera byd-enwog, ac mae acwsteg y neuadd, sydd o safon fyd-eang, yn denu cerddorfeydd, perfformiadau bale a chantorion o bob rhan o Ewrop ac o bedwar ban byd. Ond nid yw Neuadd Dewi Sant o arwyddocâd rhyngwladol yn unig: mae'n ased sy'n annwyl i bobl ledled Cymru. Yn wir, mae'n ofod sy'n cynnig cyfleoedd i gynulleidfaoedd Cymreig wylio perfformiadau o safon fyd-eang, ac yn ofod lle gall ein talentau ni ein hunain feithrin eu sgiliau. Yn syml, mae'n lleoliad sy'n cynnig cyfleoedd unigryw i bobl ifanc, ysgolion, corau a grwpiau cymunedol o bob rhan o'n cenedl berfformio a rhannu llwyfan gyda pherfformwyr sydd ar y brig yn eu proffesiynau. Bydd cenedlaethau o bobl yng Nghymru a fydd yn cofio am byth y teimlad a gawsant wrth ganu neu berfformio yn Neuadd Dewi Sant. Mae ganddi le unigryw ym mywyd diwylliannol Cymru, ac rydym ni fel Pwyllgor yn bryderus iawn y gallai'r gofod hwn gael ei golli.

Gwerthfawrogwn mai Cyngor Caerdydd yw deiliad ased Neuadd Dewi Sant. Mae'r neuadd, wrth gwrs, yn rhagddyddio datganoli, ac felly yr awdurdod lleol oedd yr unig gorff cyhoeddus a allai fod wedi cymryd y

cyfrifoldeb hwn pan agorodd y neuadd ei drysau gyntaf. Mae Cyngor Caerdydd, a'i ragflaenydd, sef Cyngor De Morgannwg, wedi cyflawni rôl bwysig dros y blynyddoedd i ddiogelu'r lleoliad, ond gwyddom y bydd costau gweithredu gofod o'r fath, yn enwedig yn y cyfnod anodd hwn, yn golygu bod yn rhaid i'r cyngor wneud penderfyniadau anodd. Rydym yn gwerthfawrogi pam mae Cyngor Caerdydd yn archwilio modelau gweithredu gwahanol. Rydym hefyd o'r farn, pe bai neuadd gyngerdd genedlaethol yn cael ei hadeiladu heddiw, y byddai'n annhebygol iawn o gael ei rhoi yn nwylo awdurdod lleol (ac rydym yn nodi, fel cymhariaeth, mai corff annibynnol yw Canolfan Mileniwm Cymru).

Rydym ni, fel Pwyllgor, hefyd yn bryderus iawn, pe bai Neuadd Dewi Sant yn cael ei rhedeg gan ddarparwr preifat heb fesurau diogelu priodol, y gallai gael ei newid am byth. Er enghraifft, ac fel y mae Creu Cymru wedi tynnu ein sylw ato, byddai cael gwared ar yr holl seddi blaen a gwastatáu llawr y neuadd i gynyddu capasiti'r awditoriwm i 2500 yn newid acwsteg y lleoliad yn aruthrol. Gallai hefyd beryglu gallu'r neuadd i gynnal cerddorfa symffoni lawn. Rydym yn bryderus ynghylch yr hyn y byddai colli'r lleoliad unigryw fel hwn yn ei olygu i Gymru a'i hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Am y rhesymau niferus hyn, hoffem ofyn y cwestiynau canlynol i chi:

1. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd ynghylch dyfodol Neuadd Dewi Sant?
2. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 1 Rhagfyr 2022 rhwng Cyngor y Celfyddydau a Chyngor Caerdydd?
3. A yw Cyngor Caerdydd wedi gofyn ichi am unrhyw gymorth pellach i sicrhau y bydd Neuadd Dewi Sant yn cael ei rhedeg gan sefydliad cyhoeddus neu ddielw?
4. A ydych chi wedi archwilio modelau ariannu gwahanol posibl ar gyfer dyfodol Neuadd Dewi Sant, a hynny gyda Chyngor Caerdydd neu hebddo?
5. A ydych wedi gwneud unrhyw asesiad o faint y byddai'n ei gostio i gefnogi Neuadd Dewi Sant fel sefydliad annibynnol, h.y. faint o arian grant y byddai ei angen arni? Os felly, beth fyddai'r gost hon? Os na, a allwch chi ddarparu asesiad o'r fath?
6. Pa asesiad y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i wneud o'r ddarpariaeth cyfleusterau cerddoriaeth glasurol o safon fyd eang yng Nghymru? Pe na bai Neuadd Dewi Sant yn gallu cyflawni swyddogaeth fel y 'Neuadd Gyngerdd Genedlaethol', pa ddarpariaeth amgen fyddai gan Gymru?
7. Sut y bydd adolygiad buddsoddiad Cyngor y Celfyddydau yn ystyried y ddarpariaeth cerddoriaeth glasurol o safon fyd-eang?
8. Pa gymorth ariannol y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i roi i Neuadd Dewi Sant yn y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, ac a oes unrhyw gymorth wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol hon?

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Gyngor Caerdydd yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad ariannol y neuadd, yn ogystal â manylion am y broses y mae wedi'i dilyn wrth ddatblygu ei achos busnes amlinellol.

O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech anfon y wybodaeth y mae'r llythyr hwn yn gofyn amdani erbyn dydd Llun 12 Rhagfyr 2022.

Mae'n siŵr y bydd pob un ohonom am sicrhau llwyddiant parhaus ein neuadd gyngerdd genedlaethol, a byddem yn croesawu eich ymateb i gwestiynau ein llythyr.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.